Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Maes Garmon
# Stryd Conwy
# Yr Wyddgrug
# Sir Y Fflint
# CH7 1JB

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2013

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 19/03/2013**

## Cyd-destun

Ysgol uwchradd ddynodedig Gymraeg ar gyfer disgyblion 11 – 18 oed yw Ysgol Maes Garmon. Mae'r ysgol wedi ei lleoli yn Yr Wyddgrug ac mae'n cael ei chynnal gan awdurdod lleol Sir y Fflint. Mae'r ysgol yn gwasanaethu trefi a phentrefi ledled Sir y Fflint. Mae'r ardal yn cynnwys rhai ardaloedd llewyrchus o fewn tref Yr Wyddgrug, a hefyd rhai pentrefi, yn ogystal â threfi diwydiannol llai breintiedig Glannau Dyfrdwy.

Mae 558 o ddisgyblion ar y gofrestr, sy'n cynnwys 105 yn y chweched dosbarth. Mae gan tua 12% o'r disgyblion yr hawl i ginio ysgol di-dâl, sydd yn is na'r canran cenedlaethol. Mae 18% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion addysgol ychwanegol yr ysgol gydag 3% ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Daw 39% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad ac mae 90% yn rhugl yn y Gymraeg. Mae gan yr ysgol ddarpariaeth 'drochi' ar gyfer grŵp o ddisgyblion ym Mlwyddyn 7 a Blwyddyn 8 sydd wedi trosglwyddo o ysgolion cynradd Saesneg, i'w galluogi i dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn y brif ffrwd.

Ychydig iawn o'r disgyblion sydd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol neu gymysg. Nid oes disgyblion â'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn Medi 2010.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Maes Garmon yn 2012-2013 yw £4,304. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Sir y Fflint yw £4,738 a'r lleiafswm yw £3,600. Mae Ysgol Maes Garmon yn yr ail safle o'r 12 ysgol uwchradd yn Sir y Fflint o safbwynt y gyllideb fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r nodweddion da yng ngwaith yr ysgol yn cynnwys:

- patrwm clir o welliant yng nghyfnod allweddol 3 dros y tair blynedd diwethaf;
- y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn y gwersi yn erbyn yr amcanion dysgu;
- safon ymddygiad y disgyblion yn uchel gyda bron pob un yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn derbyn cefnogaeth bersonol dda;
- cwricwlwm yn y ddau gyfnod allweddol, a'r chweched dosbarth, sydd yn darparu cyfleoedd a phrofiadau eang ac addas;
- ansawdd a chysondeb yr addysgu yn gryfder ac yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd a dealltwriaeth y disgyblion;
- darpariaeth dda am iechyd a lles disgyblion; a
- darpariaeth trochi effeithiol ar gyfer dysgwyr o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- arweinyddiaeth effeithiol a chadarn gan y pennaeth;
- mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli wedi rhannu gweledigaeth glir i'r holl staff ar gyfer codi safonau yn yr ysgol yn llwyddiannus;
- bod y rheolwyr canol yn cydweithio'n dda gyda'i gilydd ac yn arwain eu timau'n effeithiol iawn;
- mae gan yr ysgol drefniadau pwrpasol ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio er mwyn sicrhau gwelliant pellach;
- mae proses briodol yn ei lle er mwyn arsylwi gwersi gan yr uwch dîm a hefyd chraffu ar waith disgyblion; a
- cydweithia'r ysgol yn agos gyda ysgolion cynradd y clwstwr i sicrhau trosglwyddo esmwyth o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7.

## Argymhellion

A1 Codi safonau yn enwedig yn y Gymraeg a'r trothwy lefel 2.

A2 Sicrhau bod y merched yn dangos gwell cymhelliant er mwyn cyrraedd eu disgwyliadau.

A3 Lledaenu'r arfer orau mewn asesu ar gyfer dysgu gan sicrhau bod holi mwy agored yn helpu'r disgyblion egluro eu dealltwriaeth.

A4 Diffinio cyfrifoldebau yr uwch dîm yn fwy clir er mwyn sicrhau bod y dyletswyddau yn cael eu rhannu yn briodol ac effeithiol.

A5 Addasu cynllun datblygu'r ysgol er mwyn cynnwys targedau mwy meintiol a sicrhau bod strategaethau clir i'r camau gweithredu.

A6 Datblygu'r broses o dracio cynnydd disgyblion er mwyn sicrhau bod pob adran yn hollol gyfarwydd â'r cynnydd perthnasol.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yng nghyfnod allweddol 3, dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol yn dangos cynnydd da gyda patrwm clir o welliant. Mae perfformiad yr ysgol mewn llawer o'r dangosyddion yn well na ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim. Mae patrwm o welliant yn y dangosydd pwnc craidd ac mae'r ysgol 'nawr yn y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim. Yn y pynciau craidd yn unigol, mae perfformiad mewn Saesneg yn y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg ac mae mathemateg a gwyddoniaeth yn y 25% uchaf. Fodd bynnag, dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad mewn Cymraeg yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 4 mae perfformiad yr ysgol, dros y pedair blynedd diwethaf mewn llawer o'r prif dangosyddion, wedi bod yn y 25% uchaf o gymharu ac ysgolion tebyg. Fodd bynnag, yn 2012 roedd gostyngiad amlwg ar draws bron pob dangosydd. Mae'r dangosydd trothwy lefel 2, sydd yn cynnwys Cymraeg, Saesneg a mathemateg, wedi gostwng o fod yn y 25% uchaf, ond yn dal i fod yn y 50% uchaf. Mae trothwy lefel 2 wedi gostwng o fod yn y 25% uchaf i'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Er bod y perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 yn amrywio ar draws yr holl ddangosyddion, mae rhan fwyaf ohonynt yn dangos bod yr ysgol yn perfformio yn y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae canlyniadau 2012 yn rhoi'r ysgol yn y 50% uchaf yn y pynciau craidd sef Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ac yn y 25% isaf mewn Cymraeg fel iaith gyntaf.

Mae disgyblion y chweched dosbarth i gyd yn dilyn cyrsiau lefel 3. Mae'r canran o disgyblion a gyrhaeddodd lefel 3 yn 2012 wedi gostwng ychydig er bod y ganran yn dal i fod yn uwch na chyfartaleddau Chymru a'r teulu. Hefyd, mae'r ganran a dderbyniodd gradd A*/A wedi codi yn arwyddocaol dros y tair blynedd diwethaf.

Yn y dangosyddion sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, mae bechgyn yn perfformio'n well na'r merched. Fodd bynnag, yn y prif dangosyddion eraill mae merched yn perfformio ychydig yn well na'r bechgyn. Yn 2011, fe wnaeth disgyblion sydd â hawl i gael prydau am ddim berfformio yn dda iawn ar draws ystod o ddangosyddion o gymharu ag ysgolion tebyg, y teulu a Chymru. Fodd bynnag, yn 2012 bu gostyngiad arwyddocaol yn y ganran o ddisgyblion yn cyrraedd lefel 2 a lefel dau sydd yn cynnwys Cymraeg, Saesneg a mathemateg. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd arwyddocaol.

Ni wnaeth unrhyw ddisgybl adael yr ysgol heb gymhwyster yn 2010, 2011 na 2012 ac mae bron pob disgybl yn aros mewn addysg, gyflogaeth neu hyfforddiant amser llawn.

Yn y gwersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn erbyn yr amcanion dysgu. Maent yn adeiladu ar eu gwybodaeth, eu medrau, a'u dealltwriaeth yn dda ac mae llawer o'r disgyblion yn cynnig atebion estynedig yn eu gwersi ar draws y cwricwlwm.

Mewn ychydig o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd rhagorol ac yn datblygu medrau gwybodaeth a medrau meddwl sydd yn cyfrannu'n effeithiol tuag at eu medrau dysgu annibynnol. Mae bron pob disgybl yn gweithio'n effeithiol yn unigol a hefyd mewn grwpiau bach ac yn ymateb yn bwrpasol i dasgau priodol. Maent yn gallu trafod eu casgliadau a'u syniadau am effeithiolrwydd arddull cyn-destunau'n effeithiol.

Mae cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n hyderus yn y Gymraeg ac yn datblygu y medrau ysgrifennu a darllen perthnasol. Mae bron pob disgybl sydd â'i oed darllen yn is na'i oed cronolegol ar ddechrau Blwyddyn 7 yn gwneud cynnydd cadarn mewn darllen yn ystod cyfnod allweddol 3. Mae llawer yn ddarllenwyr rhugl, ac mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud defnydd priodol o'u medrau darllen yn gysylltiedig â'u gwaith ar draws y pynciau cwricwlwm. Er bod gwelliant yn y safonau darllen yn y Gymraeg, erbyn diwedd cyfnod allweddol 3 mae'r gyfran sy'n cyflawni ar y lefel ddisgwyliedig yn parhau'n llawer is na'r teulu a Chymru. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o'r gwersi, nid yw disgyblion yn defnyddio'r iaith yn ddigonol. Maent yn siarad yn Saesneg gyda'u cymheiriaid a'r athrawon, yn hytrach na defnyddio'r Gymraeg.

Yn y rhan fwyaf o'r pynciau, mae llawer o'r disgyblion yn gwneud defnydd priodol o'u medrau ysgrifennu. Mae llawer o'r disgyblion yn gallu ysgrifennu yn estynedig o fewn gwersi Cymraeg a Saesneg a hefyd mewn pynciau ychwanegol ar draws y cwricwlwm. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd priodol o ran cywirdeb mynegiant ysgrifenedig, er bod rhai llyfrau disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn dangos bod gwendidau yn eu dawn o sillafu, atalnodi, a defnyddio'r eirfa berthnasol. Mae'r dystiolaeth yn llyfrau cyfnod allweddol 4 yn dangos cynnydd ym medrau'r disgyblion a gwelliant yn y sillafu, a'r defnydd o eirfa sydd yn berthnasol i'r pwnc. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwrando'n astud ac yn cyflwyno'u gwaith yn drefnus.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn derbyn cefnogaeth bersonol dda. Teimla llawer o'r disgyblion fod yr ysgol yn delio'n dda gyda'r ychydig iawn o achosion o fwlio sydd yn codi. Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o sut i gadw'n iach ac mae ganddynt ymagweddau cadarnhaol tuag at ymarfer corff a bwyta'n iach. Mae lefelau da o gyfranogi mewn gweithgareddau ffitrwydd a chwaraeon, gyda llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn amryw o weithgareddau sy'n cael eu cynnal gan y clwb 5 x 60.

Dros gyfnod o dair blynedd, mae lefelau presenoldeb yn dangos ychydig o welliant ac yn cymharu'n dda ag ysgolion tebyg. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn brydlon i'w gwersi. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o'r disgyblion mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol yn dda iawn. Fodd bynnag, mae ychydig o ferched yn dangos llai o gymhelliant na'r bechgyn a hefyd yn llai cwrtais i'w cyfoedion.

Gwna llawer o ddisgyblion gyfraniad cadarn i amryw o agweddau ar fywyd ysgol trwy weithgareddau'r cyngor ysgol, a thrwy gynrychiolwyr ar y corff llywodraethol. Mae nifer o ddisgyblion y chweched dosbarth yn gweithio i hybu'r iaith Gymraeg, lles, ac ymddygiad da y disgyblion iau. Yn gynyddol, mae disgyblion yn chwarae rôl flaenllaw yn y gymuned.

Mae llawer o'r disgyblion yn meddu ar y medrau i'w paratoi ar gyfer bywyd y tu hwnt i'r ysgol neu'r cam nesaf o'u dysgu.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm a phrofiadau eang ac addas, sy'n bodloni'r holl ofynion statudol. Mae'r ysgol wedi ymateb yn dda i anghenion disgyblion trwy ehangu'r opsiynau sydd ar gael i gynnwys fwy o gyrsiau galwadigaethol a Chymhwyster Bagloriaeth Cymru. Cynigir amrywiaeth eang o brofiadau allgyrsiol mewn nifer o feysydd ac mae hyn yn cyfoethogi'r dysgu. Mae'r cysylltiadau cryf rhwng yr ysgol ac ysgolion cynradd ei glwstwr yn caniatau parhad effeithiol o brofiadau dysgu cyfnod allweddol 2.

Cynllunia'r ysgol yn briodol ar gyfer sicrhau bod cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ddatblygu eu medrau ym mhob pwnc. Defnyddir Cymhwyster Bagloriaeth Cymru i gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer medrau yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth. Yn ogystal â'r trefniadau penodol hyn, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn sicrhau datblygiad effeithiol o fedrau trwy wersi ar draws y cwricwlwm. Mae cyfleoedd addas i'r disgyblion ddatblygu medrau cyfathrebu, medrau meddwl, a medrau technoleg gwybodaeth, yn ogystal â llythrenedd a rhifedd. Rhoddir cyfleoedd i ysgrifennu'n estynedig mewn bron pob pwnc. Cynllunir profiadau da yn y gwersi, a thu allan, i ddisgyblion wella eu medrau Cymraeg. Mae hyn yn hybu eu dablygiad o ran llythrennedd Cymraeg. Mae rhaglenni ymyrraeth yr ysgol yn briodol i sicrhau bod oed darllen pob disgybl yn cymharu'n ffafriol â'u hoed cronolegol. Mae'r ddarpariaeth trochi ar gyfer dysgwyr o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn nodwedd flaengar o'r cwricwlwm. Ceir rhaglen drosglwyddo effeithiol i'r disgyblion hyn a defnyddir gweithgareddau allgyrsiol yn effeithiol i gefnogi eu datblygiad ieithyddol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn briodol, er mwyn datblygu dealltwriaeth berthnasol y disgyblion. Caiff disgyblion gyfleoedd i ymweld a gwledydd tramor ac mae ailgylchu yn rhan amlwg o weithrediad dyddiol yr ysgol. Mae gwaith y grŵp eco yn cefnogi'r gwaith pynciol yn effeithiol.

**Addysgu: Da**

Mae rhan fwyaf o'r gwersi wedi eu cynllunio'n effeithiol er mwyn sicrhau diddordeb y disgyblion. Mae'r athrawon yn pennu amcanion dysgu clir ar gyfer y gwersi er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn deall pwrpas y gwaith. Mae'r gwersi yn cynnwys gweithgareddau addas, er mwyn ennyn diddordeb y disgyblion i ehangu eu medrau perthnasol. Mae rhan fwyaf o'r athrawon yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau addysgu ac adnoddau er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn gwneud cynnydd da trwy'r wers. Mae hyn yn sicrhau 'nawr bod disgyblion mwy abl a thalentog yn cael eu herio ac maent yn cyflawni'n arbennig mewn lleiafrif o wersi. Hefyd, mae'r athrawon yn rhoi cymorth ac arweiniad da i'r disgyblion pan fyddant yn gweithio'n unigol neu mewn grwpiau. Yn y gwersi rhagorol, mae athrawon yn hyrwyddo dysgu o ansawdd uchel iawn trwy drosglwyddo llawer o gyfrifoldebau i'r disgyblion. Rhoddant gyfleoedd i'r disgyblion wrando, trafod a rhannu gwybodaeth er mwyn datblygu

medrau a dealltwriaeth bynciol, a medrau eraill fel llythrennedd, rhifedd a medrau meddwl. Yn y gwersi, mae defnydd crefftus o gwestiynau yn cael eu gofyn gan yr athrawon er mwyn ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion. Yn yr ychydig iawn o'r gwersi lle mae'r addysgu yn ddigonol, nid yw'r tasgau'n herio'r disgyblion yn ddigonol ac mae'r cwestiynu yn rhy gaeedig.

Yn ystod y gwersi, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi adborth llafar adeiladol i'r disgyblion, ynghyd â chyfleoedd pwrpasol iddynt asesu gwaith eu hunain a'u cyfoedion. Mae bron pob athro yn marcio gwaith yn rheolaidd a'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnig sylwadau defnyddiol i helpu disgyblion i wella safon eu gwaith. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd defnyddiol i nodi camau gwella ar draws y pynciau. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o'r llyfrau, mae'r marcio yn rhy arwynebol ac nid oes digon o gyngor ar sut i wella. Mae gan yr ysgol sustem electronig addas i olrhain cynnydd disgyblion. Ceir trefniadau priodol i fynd i'r afael ag unrhyw danberfformiad. Derbynia'r rhieni wybodaeth werthfawr ynglŷn â chynnydd eu plant mewn cyfarfodydd rhieni. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiadau diwedd blwyddyn yn cynnwys digon o fanylder ynghylch perfformiad disgyblion.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles yn effeithiol gan ddefnyddio asiantaethau allanol a gweithgorau disgyblion yn effeithiol. Mae ganddi raglen addysg bersonol a chymdeithasol gynhwysfawr sy'n cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ystod eang o faterion cyfoes. Mae'r cyfleoedd i gysylltu â'r gymuned, cyflogwyr yr ardal, a chymryd rhan mewn eisteddfodau, yn gyfraniad pwysig i'r rhaglen hon. Mae agweddau ar y rhaglen 'munud i feddwl' yn ychwanegu'n effeithiol at ddatblygiad moesol, ysbrydol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Mae gan yr ysgol sustemau gwrth-fwlio effeithiol. Mae'r gefnogaeth a roddir i'r disgyblion gan staff a chyd-ddisgyblion yn dda, gyda defnydd effeithiol o amryw o asiantaethau allanol.

Mae'r ysgol yn cynnig cefnogaeth gadarnhaol i'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Defnyddir system proffil disgybl sirol i fesur cynnydd y disgyblion hyn yn effeithiol. Mae gan ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol fynediad llawn i'r cwricwlwm. Mae athrawon yn cynllunio diwallu anghenion unigol disgyblion trwy ddarparu cefnogaeth neu ymyrraeth wahaniaethol yn ystod gweithgareddau dysgu. Mae mewnbwn y staff cynorthwyol yn gyfraniad pwysig ac effeithiol tuag at sicrhau bod disgyblon ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael mynediad i bob maes y cwricwlwm. Mae sustemau asesu, cofnodi ac adrodd yr ysgol, gan gynnwys yr adolygiadau cynnydd blynyddol, yn bodloni'r gofynion statudol. Mae'r lleiafrif o ddisgyblion sy'n dechrau ysgol heb fedrau darllen ddigonol yn derbyn cymorth da, a dim ond ychydig iawn sydd heb y medrau hyn erbyn diwedd blwyddyn wyth.

Mae'r trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destyn pryder.

### Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae awyrgylch cartrefol a chynhwysol yn Ysgol Maes Garmon. Maent yn rhoi pwyslais ar sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad a chyfle cyfartal ym mhob

gweithgaredd y maent yn ymddiddori ynddo. Mae’r ysgol yn herio unrhyw sterioteipio yn effeithiol trwy’r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn ogystal â gweithgareddau ychwanegol.

Mae’r ysgol yn darparu adnoddau ac amgylchedd priodol ar gyfer gwersi a gweithgareddau cyffredinol. Mae adnoddau technegol o safon dda. Mae’r adnewyddiadau yn helpu creu amgylchedd dysgu ysgogol gydag arddangosfeydd deniadol o waith y disgyblion. Mae’r disgyblion yn symud o gwmpas y safle yn ofalus ac yn ddiogel. Caiff yr adeiladau a’r tir eu cynnal a'u cadw i safon dda. Mae’r toiledau yn cael eu cynnal yn briodol ac i safon hylendid da.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae’r pennaeth a’r uwch dîm rheoli wedi rhannu gweledigaeth glir ar gyfer codi safonau yn yr ysgol yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae gan y staff ddisgwyliadau uchel iawn ar gyfer cyflawniad pob disgybl.

Mae ymwybyddiaeth dda gan y tîm rheoli o waith yr adrannau a derbynia’r staff gefnogaeth gref a her briodol ganddynt. Ceir cyfathrebu clir rhwng uwch rheolwyr a gweddill y staff mewn rhaglen gynhwysfawr o gyfarfodydd sydd yn ffocysu’n briodol ar wella safonau ynghyd ag agweddau dysgu ac addysgu. Mae gan yr ysgol sustemau rheoli perfformiad effeithiol sydd yn ffocysu’n briodol ar flaenoriaethau, megis datblygu llythrennedd a chyflawniad disgyblion. Mae’r trefniadau hyn wedi cyfrannu at safonau cyson uchel ac addysgu effeithiol yn yr ysgol.

Mae gan y rhan fwyaf o reolwyr canol falchder yn eu gwaith ac maent yn gwneud cyfraniad sylweddol i lwyddiant yr ysgol. Maent yn cydweithio’n dda gyda’i gilydd ac yn arwain eu timau’n effeithiol iawn. Mae’r mwyafrif ohonynt yn datblygu eu dealltwriaeth o sut i ddefnyddio data’n dda. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o arweinwyr canol yn gwneud digon o ddefnydd o dystiolaeth sy’n deillio o sustemau tracio’r ysgol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bu newidiadau i strwythur a chyfrifoldebau'r uwch dîm rheoli. Fodd bynnag nid yw ychydig o gyfrifoldebau wedi’u diffinio’n ddigon clir ac mae gan y pennaeth ormod o ddyletswyddau a chyfrifoldebau.

Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth addas o arwyddocâd data berfformiad ac maent yn rhoi cefnogaeth gref i’r ysgol. Maent yn ymwybodol o’r heriau sy’n wynebu’r ysgol ac yn datblygu eu rôl o herio’r ysgol yn briodol.

Tala’r ysgol sylw da at lawer o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae’r ysgol wedi ehangu ystod yr opsiynau ar gael i ddisgyblion, datblygu dwyieithrwydd y disgyblion ac ymateb yn gadarnhaol i gynllun y bartneriaeth plant a phobl ifanc Sir y Fflint.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol drefniadau pwrpasol ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae’r ddogfen hunanarfarnu ysgol gyfan yn briodol ac yn gwneud defnydd

trwyadl o ddata allanol i ddangos cynnydd ac adnabod y meysydd i'w datblygu. Mae'r ysgol yn holi barn rhieni, disgyblion a fforymau eraill gan fwydo'r canlyniadau hyn i raglenni gwelliant yr ysgol. Mae'r broses hon yn datblygu'n dda ac mae staff yr ysgol yn derbyn arweiniad a hyfforddiant cyson ar gyfer datblygu eu cyfraniad i'r prosesau hunanarfarnu.

Mae defnydd arweinwyr canol o ddata perfformiad yn datblygu'n dda ac mae gan lawer o'r adrannau adnabyddiaeth gynhwysfawr o'r meysydd sydd angen eu gwella. Eleni cyflwynwyd system newydd i olrhain cynnydd yn yr ysgol sy'n cael ei datblygu'n briodol. Fodd bynnag, mae agweddau ar y broses hon heb eu datblygu'n llawn ac mae hi'n rhy gynnar i fesur effaith hyn ar godi safonau cyflawniad rhai grwpiau o ddisgyblion.

Mae cyswllt perthnasol a chadarn rhwng yr hunanarfarnu ysgol gyfan a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae'r cynllun datblygu ysgol gyfan yn cyfeirio'n bwrpasol at wella safonau llythrennedd ar draws yr ysgol, codi cyrhaeddiad merched a gwella cyfraddau presenoldeb. Fodd bynnag, nid yw'r targedau yn feintiol ac yn y mwyafrif o achosion mae'r camau gweithredu yn rhy arwynebol. Mae'r cynlluniau gwella adrannol yn adnabod y meysydd i'w datblygu ond, yn y mwyafrif o gynlluniau, nid ydynt wedi eu costio ac nid oes targedau digon mesuradwy.

Mae gan yr ysgol broses briodol er mwyn arsylwi gwersi a chraffu ar waith. Mae'r uwch dîm rheoli yn arsylwi pob aelod o staff a defnyddir fformat cytûn er mwyn arsylwi gwersi. Canolbwyntir ar fesur safonau, medrau, addysgu ac asesu ar gyfer dysgu o fewn y gwersi. Mae lleiafrif o reolwyr canol yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol i fwydo'r hunanarfarnu sy'n cynnwys sylwadau am gynnydd disgyblion wrth arsylwi a monitro gwaith. Fodd bynnag, mae ychydig o anghysondeb yn amlder a thrylwyredd y prosesau hyn.

Sefydlwyd sawl gweithgor ysgol sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau'r ysgol, megis asesu ar gyfer dysgu, Cymreictod ac e-ddysgu. Mae aelodau blaengar wedi arwain y rhwydweithiau hyn a rhannwyd arferion da pob un mewn hyfforddiant mewn swydd ysgol gyfan. Ar sail gwaith y gweithgorau, mae polisïau newydd wedi eu llunio, systemau newydd wedi eu mabwysiadu ac adnoddau rhyngweithiol wedi eu creu. Mesurir effaith y cymunedau dysgu mewn ffyrdd ffurfiol ac anffurfiol. Ceir rhaglen datblygiad proffesiynol gynhwysfawr sydd yn bodloni gofynion staff unigol yn ogystal â chanolbwyntio'n effeithiol ar flaenoriaethau'r ysgol. Mae'r ysgol yn y broses o ddatblygu cysylltiadau ffurfiol gydag ysgolion eraill i weld a rhannu arferion da ac mae enghreifftiau da iawn o rannu'r arferion gorau yn fewnol er mwyn codi safonau.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cadarn tuag at fodloni llawer o argymhellion yr arolygiad blaenorol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Cydweithia'r ysgol yn effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid er mwyn ehangu ar brofiadau'r disgyblion. Mae'r ysgol yn cynnal perthynas agos a chynhyrchiol gyda rhieni trwy sicrhau cyfathrebu rheolaidd a chlir. Yn ogystal, ceir cymdeithas rhieni ac athrawon weithgar a brwd.

Ceir cysylltiadau buddiol gydag ystod eang o fusnesau a sefydliadau cymunedol i ddatblygu medrau ehangach y disgyblion. Mae cysylltiadau agos gyda sefydliad y 'Rotari' lleol yn rhoi cyfleoedd effeithiol i'r disgyblion ddatblygu eu medrau cyfweld ac areithio. Cydweithia'r ysgol yn agos gydag amrywiaeth o asiantaethau i gefnogi lles disgyblion. Mae partneriaeth agos gyda mudiad yr Urdd yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i drochi'r disgyblion yn y diwylliant Cymreig.

Mae cydweithio agos gydag ysgol Gymraeg arall a cholegau lleol wedi ehangu ar y dewis o gyrsiau ar gyfer disgyblion ôl-16. Fodd bynnag nid oes trefniadau ffurfiol ar gyfer sicrhau ansawdd darpariaeth y cyrsiau hyn. Cydweithia'r ysgol yn agos gyda'r ysgolion cynradd partner i sicrhau trosglwyddo esmwyth i Flwyddyn 7.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol staff brwdfrydig a medrus i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae'r ysgol wedi ymateb yn dda i'r cyfyngiadau ariannol ac wedi lleihau'r diffyg o £100k yn sylweddol. Mae'r pennaeth yn cynllunio'r gwariant yn effeithiol ac yn sicrhau bod digon o gyllid ar gael i ddiwallu anghenion adrannau a blaenoriaethau ysgol gyfan. Caiff y gwariant ei fonitro'n llwyddiannus gan is-bwyllgor cyllid y Llywodraethwyr. Mae'r partneriaethau 14-19 wedi sicrhau cwricwlwm mwy eang yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth gyda threfniadau mwy cost effeithiol. Fodd bynnag mae mwyafrif o ddosbarthiadau yn y chweched dosbarth yn cynnwys niferoedd bach o ddisgyblion.

O ystyried ansawdd yr addysgu a safonau, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 3, dros y tair blynedd diwethaf, mae'r dangosydd pynciau craidd yn dangos cynnydd da gyda phatrwm clir o welliant. Mae perfformiad 2012 yn agos iawn i gyfartaledd y teulu ac yn uwch na'r disgwyliadau o gymharu ag ysgolion tebyg yn genedlaethol o ran lefelau prydau ysgol am ddim. Mae patrwm o welliant dros y pum mlynedd diwethaf yn y dangosydd pwnc craidd ac mae'r ysgol 'nawr yn y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim. Mae'r canran o ddisgyblion sydd yn cyflawni'r dangosyddion pynciau craidd yn uwch na'r disgwyliad ar sail lefelau prydau ysgol am ddim.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad mewn Cymraeg yn llawer ir na chyfartaledd y teulu, ac yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad mewn Saesneg ymhlith y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg, ac mewn mathemateg a gwyddoniaeth mae'r ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg, a hefyd yn uwch na chyfartaledd y teulu. Yn 2012, mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch mewn Saesneg, gwyddoniaeth a mathemateg yn well na chyfartaledd y teulu, ond mewn Cymraeg mae'n is na chyfartaledd y teulu. Mae cyfran y disgyblion sydd yn cyflawni lefel 7 neu uwch yn is na'r teulu mewn Cymraeg a mathemateg, ond yn uwch na'r teulu mewn Saesneg a gwyddoniaeth.

Yng nghyfnod allweddol 4, ers 2009, ac eithrio 2012, mae canlyniadau'r trothwy lefel 2 a'r trothwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu ac yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim. Yn 2012 roedd gostyngiad yn y canran o ddisgyblion sydd yn cyrraedd y trothwy lefel 2, sydd nawr yn is na'r teulu ac yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn ystod yr un cyfnod, mae canlyniadau'r trothwy lefel 1 wedi bod ymhlith y 25% uchaf, ond roedd gostyngiad i'r 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim. Ers 2010 mae canlyniadau'r dangosydd pynciau craidd wedi gostwng ond mae'r ysgol yn dal i fod yn y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg, ac yn agos iawn i gyfartaledd y teulu. Roedd perfformiad yn y dangosydd hwn o 2009 – 2011 yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim. Ers 2010 mae'r sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i chapio yn dangos patrwm amrywiol ac yn 2012 yn gosod yr ysgol yn y 50% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Ers 2009 mae canlyniadau mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Dros gyfnod o bum mlynedd, mae perfformiad mewn Cymraeg wedi gosod yr ysgol ymhlith y 50% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg ac yn 2012, ymhlith y 25% isaf.

Yn y chweched dosbarth, mae perfformiad yr ysgol yn y trothwy lefel 3 dros gyfnod o dair blynedd, wedi bod yn uwch na chyfartaledd yr awdurdod lleol a Chymru. Yn 2012 roedd y ganran wedi gostwng i fod yn gyfartal â'r teulu. Mae'r sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach wedi gwella ers 2010 i fod yn uwch na chyfartaledd y teulu, yr awdurdod lleol a Chymru.

Yn y dangosydd pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad y bechgyn a'r merched yn agos iawn at ei gilydd, gyda'r bechgyn yn perfformio yn uwch na'r disgwyliadau o gymharu a chyfartaledd y teulu a Chymru.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiaduron dysgwyr

Ymatebodd 144 o ddisgyblion, wedi eu dewis ar hap ar draws yr ysgol, i'r holiadur. Mae'r sampl hon yn cynrychioli chwarter o holl ddisgyblion yr ysgol. Mae'r ymatebion ar gyfer bron y cyfan o'r cwestiynau yn debyg neu'n well nag ymatebion disgyblion o ysgolion uwchradd eraill.

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae llawer yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio â rhan fwyaf yn nodi bod ganddynt rywun i siarad ag ef os ydynt yn poeni. Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo bod eraill yn ymddwyn yn dda. Teimla llawer o ddisgyblion bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach a rhan fwyaf yn nodi bod digon o gyfleoedd yn yr ysgol i gael ymarfer corff yn rheolaidd. Hefyd, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn teimlo bod digon o offer yn yr ysgol iddynt wneud eu gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda a bod yr athrawon yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Hefyd, mae llawer yn teimlo bod y gwaith cartref sy'n cael ei osod yn adeiladu'n dda ar yr hyn maent yn ei ddysgu. Mae llawer o'r disgyblion yn teimlo bod y staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt. Mae llawer o'r disgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn gwrando ar eu barn ac yn gwneud newidiadau maent yn eu hawgrymu. Mae'r gyfran hon yn uwch na'r gyfran sy'n dweud hyn mewn ysgolion uwchradd eraill.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn nodi bod yr ysgol yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb. Hefyd, mae'r rhan fwyaf yn teimlo bod yr ysgol yn eu helpu i fod yn barod ar gyfer yr ysgol nesaf, coleg neu fywyd gwaith.

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniodd Estyn 107 o holiaduron gan y rhieni ac mae pob un ohonynt yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r ysgol yn gyffredinol.

Dywed rhan fwyaf o'r rhieni fod eu plant yn hoffi'r ysgol, yn gwneud cynnydd da ac yn teimlo'n ddiogel ynddi. Mae'r rhan fwyaf yn credu bod ymddygiad y disgyblion yn dda a bod eu plant yn datblygu i fod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldebau. Mae rhan fwyaf yn nodi bod disgyblion yn cael eu parchu a'u trin yn deg ac mae bron pob un o'r rhieni yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. Mae bron bob un o'r rhieni yn teimlo bod yr addysgu'n dda a bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.

Mae rhan fwyaf o'r rhieni yn teimlo eu bod yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plentyn a bod yr ysgol yn eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf, coleg neu waith. Mae bron bob un o'r rhieni yn teimlo bod yna amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. Mae'r bron bob un o'r rhieni o'r farn fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

# Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Ray Owen | Arolygydd Cofnodol |
| Ceri Jones | Arolygydd Tîm |
| Rhian Griffith | Arolygydd Tîm |
| Cath Evans | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Rhodri Thomas | Arolygydd Cymheiriaid |
| Llifon Jones | Enwebai’r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion |

| | |
|---|---|
| | tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |